# Neges diwedd wythnos


## 03.10.25

Croeso i'n cylchlythyr wythnosol, yma fe welwch chi gipolwg o'r wythnos ynghyd â negeseuon dathlu a dyddiadau ar gyfer eich dyddiadur.

## Presenoldeb

**Targed presenoldeb yr ysgol: 95.01%**

**Presenoldeb yr ysgol: 94.64%**




| Attendance | Days Absent | Weeks Absent | Lessons Missed |
|---|---|---|---|
| 95% | 9.5 | 1.9 | 48 |
| 90% | 19 | 3.8 | 95 |
| 85% | 28.5 | 5.7 | 143 |
| 80% | 38 | 7.6 | 190 |
| 75% | 47.5 | 9.5 | 238 |
| 70% | 57 | 11.4 | 285 |
| 65% | 66.5 | 13.3 | 333 |

## Y Cwestiwn Mawr

Ein cwestiwn mawr am y bythefnos nesaf...

**Faint o feddyliau ydy chi'n cael mewn diwrnod?**



## Prynhawn agored Sbardun

Ar ddydd Llun cynhaliodd Sbardun+ brynhawn agored i ddathlu'r gwaith sydd wedi'i wneud yn y goedwig. Diolch i'n holl deuluoedd am fynychu, rwy'n siŵr bod y disgyblion wedi mwynhau cymryd rhan yn yr amrywiaeth o weithgareddau a'r pitsas ar y diwedd. Byddem yn gwerthfawrogi'n fawr pe bai rhieni'n gallu cwblhau'r ffurflen isod i gasglu gwybodaeth am gefnogi cynnal a chadw'r coed ymhellach.

https://forms.gle/hUh2NhoxQaVqH94B6

## Rygbi Tag




Llongyfarchiadau enfawr i'n tîm rygbi Blwyddyn 4! Daeth y tîm yn ail yng nghystadleuaeth yr Urdd yn Arberth Dydd Mercher. Rydym ni fel ysgol yn falch iawn o'ch llwyddiant. Diolch i Urdd Sir Benfro am drefnu'r digwyddiad trefnus iawn!

## Nosweithiau Rhieni

Mae nosweithiau rhieni wedi'u trefnu ar gyfer yr wythnos yn dechrau dydd Llun 13 Hydref 2025, rhwng 3:30pm a 6:00pm bob dydd. Bydd dolen archebu yn cael ei hanfon drwy Parentmail ar ddydd Gwener 3 Hydref 2025 am 6:00pm. Gwiriwch eich mewnflwch yn brydlon i sicrhau slot amser addas. Sylwch os na fyddwch yn mynychu eich apwyntiad nac yn trefnu un, ni fydd cyfle pellach i gwrdd â thiwtor eich plentyn yn ystod y tymor hwn. ***Noder na fydd clwb codio yn ystod yr wythnos hon gan y bydd Athrawon yn cynnal nosweithiau Rhieni.***

## Cyfarfod CRhFf




Ar Ddydd Mawrth cynhaliodd ein Cymdeithas Rhieni, Athrawon a Theuluoedd eu hail gyfarfod yn y flwyddyn academaidd newydd lle trafodwyd syniadau a digwyddiadau. Yn yr wythnosau nesaf, gwneir trefniadau ar gyfer ein Ffair Nadolig a gynhelir ddydd Llun 24 Tachwedd 2025. Gweler manylion y cyfarfod nesaf a byddem yn croesawu mwy o bobl i fynychu.

## Eisteddfod Y Garreg Las

Mae Ysgol Hafan Y Môr yn falch o gydweithio â Phwyllgor Apêl Dinbych-y-Pysgod i helpu codi'r £11,000 ar gyfer yr Eisteddfod eleni, sydd i'w chynnal yn Sir Benfro rhwng 1-8 Awst 2026. Byddwn yn cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau drwy gydol y flwyddyn a fydd yn cyfrannu at y targed hwn, yn ogystal â gwerthu'r crys-T swyddogol a thocynnau raffl o'r dderbynfa. Os hoffech chi grys-T, galwch heibio'r dderbynfa i wneud eich archeb. Mae'r crysau-T yn £10, gyda £5 o bob un yn mynd yn uniongyrchol i Bwyllgor Apêl Dinbych-y-Pysgod.







## Aelodaeth yr Urdd

Hoffem eich hysbysu bod angen i bob disgybl fod yn aelod o'r Urdd os ddymunwn gymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau, digwyddiadau neu gystadlaethau a drefnir gan yr Urdd yn ystod blwyddyn ysgol 2025-2026. Mae'r Urdd yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i'n plant gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol, chwaraeon, celfyddydol ac ieuenctid drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae aelodaeth yn agored i bawb, ac mae modd cofrestru'n hawdd ar wefan yr Urdd:

https://www.urdd.cymru/cy/ymuno/

Mae tâl blynyddol ynghlwm wrth yr aelodaeth o £12.50 ar gyfer aelod sengl neu £30 ar gyfer teulu (3 neu fwy o blant). Fodd bynnag, mae disgyblion sy'n derbyn cymorth ariannol gan y llywodraeth - fel prydau ysgol am ddim neu rai budd-daliadau - yn gymwys i ymuno am £1 yn unig.

Urdd

## Ser yr wythnos




Llongyfarchiadau i Ava, Bella, Nansi, Jack, Primrose, Arthur, Niall a Myanna am fod yn ser yr wythnos - 03.10.25!

## Pencanpwyr Hwb

| | SpellBlast | J2NumberBlast |
|---|---|---|
| Bl.2 – | Xabi | Oscar |
| Bl.3 – | Theo | Theo |
| Bl.4 – | Esta | Jack |
| Bl.5 - | Seren | Alfie |
| Bl.6 - | Beau | Lucy |




## Ein Siaradwyr Cymraeg yr wythnos

**Dathlu ymdrechion y disgyblion sy'n gwneud eu gorau glas i siarad Cymraeg**




**Derbyn - Louie**
**Bl.1 - Iori**
**Bl.2 – Nancy**
**Bl.3 – Florence**
**Bl.4 – Esta**
**Bl.5 - Madi**
**Bl.6 - Caleb**

## Wythnos Nesaf

| | |
|---|---|
| Dydd Llun- 06.10.25 | • Gwersi Sielo<br>• Gwersi Ffidil a Gitar<br>• Bl.2 Nofio<br>• Sgwrs Anweddau ac Ysmygu i Fl. 5 a 6<br>• Cymraeg i oedolion<br>• Sgwrs resbiradol i Rieni - neuadd yr ysgol gan Dave Edwards Fferyllydd Resbiradol |
| Dydd Mawrth - 07.10.25 | • Addysg Gorfforol Bl 3-6.<br>• Gwersi Chwythbrennau<br>• Clwb Chwaraeon ar ôl ysgol Bl 5 a 6<br>• Diwrnod Hwyl Bl.6 i Ysgol Caer Elen |
| Dydd Mercher - 08.10.25 | • Mercher Mwdlyd - Meithrin - Bl 2<br>• Bl.6 Nofio<br>• 'Clwb Codio' - 3.15yp - 4.15yp i Fl.3-6 |
| Dydd Iau - 09.10.25 | • Gwersi Pres<br>• Addysg Gorfforol i Meithin - Bl 2<br>• Clwb Chwaraeon ar ôl ysgol i flynyddoedd 1 a 2 - 3.15yp - 4.15yp |
| Dydd Gwener - 10.10.25 | • Gwener Gwych Bl 3 - 6 |

http://www.ysgolhafanymor.cymru/home/calendar/

**Please use the link above to view future dates. This is the best way for parents to see dates and what is happening at school.**

## Absenoldebau

Gweler isod y ddolen ar gyfer y ffurflen gais am absenoldeb. Gofynnwn yn garedig i chi gwblhau'r ffurflen hon os yw'ch plentyn/plant yn absennol.

https://docs.google.com/forms/d/15ZT3HRC9HMgkVjIrtDvpYQstpfMnPnli4zpoqxGUBSQ/edit

# Meddygaeth

**Gweler isod y ddolen ar gyfer y ffurflen meddygaeth. Gofynnwn yn garedig i chi gwblhau'r ffurflen hon os yw'ch plentyn/plant angen meddygaeth yn yr ysgol.**

**https://forms.gle/SgryLRHGLaEQp9qm9**

# Gwybodaeth Ychwanegol

**Gwybodaeth am ddyddiadau gwyliau a diwrnodau HMS (diwrnodau cau ysgolion). Sylwch fod y rhain wedi'u diweddaru ac ar galendr gwefan yr ysgol.**

**http://www.ysgolhafanymor.cymru/home/calendar/**

**Gwyliau'r Nadolig 23.12.2024 – 03.01.2026**

**HMS (ysgol ar gau i ddisgyblion) 05.01.2026**

**Hanner Tymor 16.02.2026 – 20.02.2026**

**HMS (ysgol ar gau i ddisgyblion) 27..03.2026**

**Gwyliau'r Pasg 30.04.2026 – 10.04.2026**

**Gwŷl y Banc (ysgol ar gau) 04.05.2026**

**Hanner Tymor 25.05.2026 – 29.05.2026**

**HMS (ysgol ar gau i ddisgyblion) 15.06.2026**

**Gwyliau'r Haf .0.2025 – 29.08.2025**

**<u>TYWYDD GARW</u>**

**Hoffwn atgoffa pob rhiant o'r gweithdrefnau ar gyfer tywydd garw a chau ysgolion. Mae diweddariadau yn ymwneud â chau ysgolion neu rybuddion eraill i'w gweld ar y tudalennau canlynol**

**www.pembrokeshire.gov.uk/alerts**

**Gallwch gofrestru ar gyfer rhybuddion drwy greu eich cyfrif eich hun drwy ddefnyddio'r cyfeiriad gwe canlynol:**

**https://myaccount.pembrokeshire.gov.uk/**

**Bydd tudalennau Trydar a Facebook y Cyngor hefyd yn cael eu diweddaru gyda rhybuddion:**

**www.facebook.com/PembrokeshireCountyCouncil**

www.twitter.com/Pembrokeshire